**Gwybodaeth i Gleifion**

**Cellcept**

**Uned Llygaid**

---

**Beth yw e?**
Mae mycophenolat mofetil (cellcept) yn gyffur a ddefnyddiwyd i drin cleifion sydd â chwyddo ar ôl i organau gael eu trawsblannu, fel y galon, yr arennau a'r iau. Mae angen i'w celloedd imiwnedd gael eu 'diffodd' i'w hatal rhag ymosod ar yr organ a roddwyd. Mae astudiaethau clinigol wedi dangos y gall Cellcept hefyd atall chwyddo yn y llygad.

**Pryd na ddylid defnyddio Cellcept?**
**(Neu dim ond ar ôl trafod â'ch Meddyg Ymgynghorol)**

- Os ydych neu y credwch y gallwch fod yn feichiog
- Os oes gennych glefyd yr iau neu'r arennau
- Os ydych yn bwydo ar y fron.
- Os ydych wedi cael brechiadau'n ddiweddar neu am gael rhai'n fuan.
- Os ydych ar dabledi gwrthgeulo fel Warfarin neu asiantau gwrthgymalwst fel Allopurinol.

**Pryd dylech fod yn ofalus wrth gymryd Cellcept?**
**Rhowch wybod am y canlynol i'ch meddyg:-**

- Os oes gennych unrhyw gleisiau neu waedu diesboniad
- Rydych yn cael pyliau o heintio
- Os ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaeth arall

**A allaf gael fy imiwneiddio tra fy mod ar Cellcept?**
**Dylech osgoi cael eich imiwneiddio gyda brechiadau byw fel:**

- Polio drwy dabledi ceg
- Rwbela (y frech Almaenig)
- Y Clefyd Melyn
- Tyffoid drwy dabledi ceg
- Y Diciáu

**Mae'n ddiogel cael eich imiwneiddio am:**

- Hepatitis
- Ffliw
- Tetanws

- Niwmofrechiad
- Meningofrechiad
- Polisi drwy bigiad
- Tyffoid drwy bigiad

**Sut y dylid cymryd Cellcept?**

Cymerwch y tabledi’n ôl cyfarwyddyd eich Meddyg.

Dylech eu llyncu’n gyfan, nid eu cnoi na’u sugno.

Bydd eich Arbenigwr yn dweud wrthych faint i’w gymryd a all newid yn barhaus. Byddwch yn cymryd rhwng un a thri gram y dydd. Mae’n dibynnu ar eich pwysau a’ch therapi ymateb.

Os methwch ddos, dylech ei chymryd pan sylweddolwch. Ond, os nad ydych yn sylweddoli nes y diwrnod wedyn, anghofiwch amdani a chariwch ymlaen fel arfer.
**Peidiwch â chymryd dwbl y ddos**

Os cymrwch ormod o dabledi neu fod rhywun arall drwy gamgymeriad yn cymryd eich meddyginiaeth, cysylltwch â’ch meddyg, fferyllydd neu’r ysbyty agosaf ar unwaith.

**Beth yw’r sgil effeithiau posibl?**

Fel arfer mae goddefgarwch da i’r driniaeth hon. Ond efallai y bydd effeithiau annymunol.

I ddechrau gallech deimlo’n sâl ar ôl cymryd y tabledi. Mae eu cymryd ar ôl bwyta yn helpu i leddfu hyn.

Gallwch fod yn flinedig i ddechrau ond nid yw hyn yn para ar ôl ei cymryd am gyfnod.

Gallwch hefyd gael dolur rhydd ond gall defnydd parhaus neu ddos lai leddfu hyn.

Caiff eich cyfrif gwaed ei fonitro’n rheolaidd gan y gall Cellcept leihau eich cyfrif celloedd. Mae lefelau’n dychwelyd i’r arfer pan fo’r driniaeth yn cael ei lleihau neu ei hatal.

Weithiau, gall pobl grynu fymryn, cael cur pen neu boen yn y cyhyrau.

Mae effeithiau llai cyffredin gan gynnwys teimlo’n bigog neu’n bryderus, amharu ar weithrediad yr iau a’r clefyd melyn. Mae rhai pobl yn cael mwy o heintiau firysol a bacteriol, felly mae’n bwysig rhoi gwybod i’ch meddyg os teimlwch yn sâl. Mae lymffoma wedi’i adrodd ond mae’n brin iawn. Os ydy’r effeithiau’n ddifrifol iawn, deuir â’r driniaeth i ben.

**Ydy Cellcept yn effeithio ar ffrwythlondeb neu feichiogrwydd?**
Rydym yn argymell i unrhyw ferch a all esgor ar blentyn sy’n cymryd triniaethau imiwnolethol osgoi mynd yn feichiog gan y gall rhai cyffuriau gynyddu’r risg o ddiffygion geni a/neu broblemau datblygiadol.  Gallai fod angen i ddynion ar driniaethau imiwnolethol hefyd fod yn ofalus.

Mae’r ffurf fwyaf priodol ar atal genhedlu’n dibynnu ar y meddyginiaethau rydych chi’n eu cymryd, felly gofynnwch i ni am gyngor.  Rhowch wybod a ydych yn bwriadu dechrau teulu fel y gallwn drafod opsiynau triniaeth â chi.

Os ydych chi’n cael unrhyw broblemau o ran y cyffur, cysylltwch â’ch meddyg teulu neu Adran y Llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Atygyfeiriad Brys:- 01633 – 238856
(allan o oriau)

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”.**